# Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer 2014
# ar gyfer
# Cyngor Sir Ddinbych

I gyflawni Rhan IV
Deddf yr Amgylchedd 1995
Rheoli Ansawdd Aer Lleol

Ebrill 2014

| | |
|---|---|
| **Swyddog Awdurdod Lleol** | Sean Awbery |
| | |
| **Adran** | Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **Cyfeiriad** | Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, Sir Ddinbych LL15 1YN |
| **Rhif Ffôn** | 01824 706178 |
| **e-bost** | sean.awbery@sirddinbych.gov.uk |
| | |
| **Cyfeirif yr Adroddiad:** | Adroddiad Cynnydd 2014 |
| **Dyddiad** | Medi 2014 |

# Crynodeb Gweithredol

Mae Rhan IV Deddf yr Amgylchedd 1995 yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i adolygu ac asesu ansawdd aer eu hardal ac i ystyried Canllawiau’r Llywodraeth wrth ymgymryd â'r gwaith hwn.

Mae’r Adroddiad Cynnydd hwn yn ystyried yr holl ddata monitro newydd ac yn asesu'r data yn erbyn amcanion y Strategaeth Ansawdd Aer. Mae hefyd yn ystyried unrhyw newid a all effeithio ar ansawdd aer.

Dangosodd y gwaith monitro a ddiweddarwyd nad oedd gormodiant uwchlaw trothwy Amcanion Ansawdd Aer yn y sir yn 2013.

Nid oes angen cynnal Asesiad Manwl.

Mae’r camau gweithredu arfaethedig yn sgil yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

- Parhau i fonitro ansawdd aer o fewn y dalgylch i adnabod newidiadau yn y dyfodol o ran crynodiad llygredd;
- Mynd ymlaen i Adroddiad Asesiad Sgrinio a Diweddaru yn 2015.

# Tabl Cynnwys


1. Cyflwyniad 6
   - 1.1 Disgrifiad o Ardal yr Awdurdod Lleol
   - 1.2 Pwrpas yr Adroddiad Cynnydd
   - 1.3 Amcanion Ansawdd Aer
   - 1.4 Crynodeb o Adolygiadau ac Asesiadau Blaenorol

2. Data Monitro Newydd 11
   - 2.1 Crynodeb o'r Monitro Data a Wnaed
   - 2.2 Cymharu Canlyniadau'r Monitro ag Amcanion Ansawdd Aer

3. Datblygiadau Lleol Newydd 29
   - 3.1 Ffynonellau Traffig Ffyrdd
   - 3.2 Ffynonellau Cludiant Eraill
   - 3.3 Ffynonellau Diwydiannol
   - 3.4 Ffynonellau Masnachol a Domestig
   - 3.5 Datblygiadau Newydd gyda Ffynonellau ar Ffo neu heb eu Rheoli

4. Polisïau Cynllunio Ansawdd Aer 31

5. Cynlluniau a Strategaethau Cludiant Lleol 32

6. Casgliadau a Chamau Gweithredu Bwriedig 33
   - 6.1 Casgliadau'r Data Monitro Newydd
   - 6.2 Casgliadau'n ymwneud â Datblygiadau Lleol Newydd
   - 6.3 Camau Gweithredu Bwriedig

7. Cyfeiriadau 34

**Rhestr o Dablau**


Tabl 1.1 Amcanion Ansawdd Aer sydd wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau at ddiben LAQM yng Nghymru

Tabl 2.1 Manylion Safleoedd Monitro Anawtomatig

Tabl 2.2 Canlyniadau Tiwbiau Trylediad $NO_2$ 2013

Tabl 2.3 Canlyniadau Tiwbiau Trylediad $NO_2$ (2009 i 2013)


**Rhestr o Ffigurau**


Ffigur 2.1 Mapiau o Safleoedd Monitro Anawtomatig

Ffigur 2.2 Tueddiadau yn y Crynodiadau Nitrogen Deuocsid Cymedrig Blynyddol a Fesurwyd mewn Safleoedd Monitro Tiwbiau Tryledia d


**Atodiadau:**


Atodiad A: Data Sicrhau Ansawdd / Rheoli Ansawdd (QA/QC)

Atodiad B: Canlyniadau tiwbiau tryledu Nitrogen Deuocsid (ug/$m^3$) 2013

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Disgrifiad o Ardal yr Awdurdod Lleol

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gwasanaethu ardal sy'n ymestyn o'r Rhyl a Phrestatyn yng Ngogledd Cymru i Ddyffryn Clwyd ac mor bell i'r de â Chorwen a Llangollen. Mae Sir Ddinbych yn sir wledig gyda thwristiaeth ac amaethyddiaeth yn brif ddiwydiannau.

Prif ffynhonnell llygredd aer yn yr ardal yw allyriadau traffig yn sgil y priffyrdd; yr A55, yr A5 a'r A494 yn benodol. Mae'r A55 yn croesi ar draws gogledd Sir Ddinbych gan ei chysylltu'r â'r rhwydwaith traffyrdd cenedlaethol. Mae'r A5 yn croesi'r sir gan ei chysylltu ag Eryri yn y gorllewin. Mae'r A494, ffordd gyswllt Caer a Dolgellau, hefyd yn croesi'r sir.

Ar hyn o bryd nid oes Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yn Sir Ddinbych.

## 1.2 Pwrpas yr Adroddiad Cynnydd

Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni gofynion y broses Rheoli Ansawdd Aer Lleol (LAQM) fel y nodir yn Rhan IV Deddf yr Amgylchedd (1995), y Strategaeth Ansawdd Aer ar gyfer Lloegr, Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon 2007 a dogfennau Polisi a Chanllawiau Technegol perthnasol. Mae'r broses LAQM yn rhoi dyletswydd ar bob awdurdod lleol i adolygu ac asesu ansawdd aer yn eu hardaloedd, a phenderfynu a yw'r amcanion ansawdd aer yn debygol o gael eu cyflawni ai peidio. Lle ystyrir bod lefelau'n debygol o fod yn uwch na'r amcanion, rhaid i'r awdurdod lleol wedyn ddatgan Ardal Rheoli Ansawdd Aer (AQMA) a pharatoi Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer (AQAP) sy'n amlinellu'r camau y mae'n bwriadu eu rhoi ar waith er mwyn cyflawni amcanion.

Mae Adroddiadau Cynnydd yn ofynnol yn y blynyddoedd rhwng yr adroddiadau Asesu Diweddaru a Sgrinio bob tair blynedd. Eu pwrpas yw cynnal parhad yn y broses LAQM.

Ni fwriedir iddynt fod mor fanwl ag Adroddiadau Asesu Diweddaru a Sgrinio, ac nid oes angen cymaint o ymdrech. Fodd bynnag, os bydd yr Adroddiad Cynnydd yn nodi risg o fod yn uwch na'r Amcan Ansawdd Aer, dylai'r Awdurdod Lleol (ALl) gynnal Asesiad Manwl ar unwaith, ac ni ddylai aros tan y rownd nesaf o Adolygu ac Asesu.

## 1.3 Amcanion Ansawdd Aer

Mae'r amcanion ansawdd aer sy'n berthnasol i LAQM yng Nghymru wedi'u nodi yn Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000, Rhif 1940 (Cymru 138), Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygio) (Cymru) 2002, Rhif 3182 (Cymru 298), ac fe'u dangosir yn Nhabl 1. Mae'r tabl hwn yn dangos yr amcanion mewn microgramau y metr ciwbig (g/m$^3$ (miligramau y metr ciwbig, mg/m$^3$ ar gyfer carbon monocsid) a nifer yr achlysuron y caniateir gormodiant pob blwyddyn (os yw'n gymwys).

**Tabl 1.1 Amcanion Ansawdd Aer sydd wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau at ddiben LAQM yng Nghymru**

| **Llygrydd** | **Amcan Ansawdd Aer** | | **Dyddiad y dylid cyflawni hyn** |
|---|---|---|---|
| | **Crynodiad** | **Mesurwyd fel** | |
| **Bensen** | 16.25 µg/m$^3$ | Cymedr blynyddol cyfredol | 31.12.2003 |
| | 5.00 µg/m$^3$ | Cymedr blynyddol | 31.12.2011 |
| **1,3-Biwtadïen** | 2.25 µg/m$^3$ | Cymedr blynyddol cyfredol | 31.12.2003 |
| **Carbon monocsid** | 10 mg/m$^3$ | Cymedr 8 awr cyfredol | 31.12.2003 |
| **Plwm** | 0.50 µg/m$^3$ | Cymedr blynyddol | 31.12.2004 |
| | 0.25 µg/m$^3$ | Cymedr blynyddol | 31.12.2008 |
| **Nitrogen deuocsid** | ni ddylid mynd yn uwch na 200 µg/m$^3$ fwy na 18 gwaith y flwyddyn | Cymedr 1 awr | 31.12.2005 |
| | 40 µg/m$^3$ | Cymedr blynyddol | 31.12.2005 |
| **Mater Gronynnol ($PM_{10}$) (grafimetrig)** | 50 µg/m$^3$, ni ddylid mynd yn uwch na hyn fwy na 35 gwaith y flwyddyn | Cymedr 24 awr | 31.12.2004 |
| | 40 µg/m$^3$ | Cymedr blynyddol | 31.12.2004 |
| **Sylffwr deuocsid** | 350 µg/m$^3$, ni ddylid mynd yn uwch na hyn fwy na 24 gwaith y flwyddyn | Cymedr 1 awr | 31.12.2004 |
| | 125 µg/m$^3$, ni ddylid mynd yn uwch na hyn fwy na 3 gwaith y flwyddyn | Cymedr 24 awr | 31.12.2004 |
| | 266 µg/m$^3$, ni ddylid mynd yn uwch na hyn fwy na 35 gwaith y flwyddyn | Cymedr 15 munud | 31.12.2005 |

## 1.4 Crynodeb o Adolygiadau ac Asesiadau Blaenorol

Cynhaliodd Cyngor Sir Ddinbych Gylch Cyntaf Adolygiad ac Asesiad o ansawdd aer ym mis Tachwedd 2000 (Cam Un) ac ym mis Mai 2001 (Cam Dau). Casglwyd o'r cylch cyntaf y disgwylir y caiff holl amcanion y Strategaeth Ansawdd Aer eu cyflawni mewn pryd yn seiliedig ar yr wybodaeth a oedd ar gael bryd hynny.

Cwblhawyd cam cyntaf yr Ail Gylch o Adolygu ac Asesu, yr USA, yn 2003 a darparodd yr wybodaeth ddiweddaraf o ran materion ansawdd aer yn Sir Ddinbych. Daeth USA 2003 i'r casgliad nad oedd angen Asesiad Manwl o ansawdd aer. Disgwyliwyd cyflawni'r holl Amcanion Ansawdd Aer. Felly hefyd y nodwyd yn Adroddiadau Cynnydd 2004 a 2005.

Cwblhawyd cam cyntaf y Trydydd Cylch o Adolygu ac Asesu ym mis Ebrill 2006 a bu i hyn ddarparu gwybodaeth bellach o ran materion ansawdd aer Sir Ddinbych. Daeth USA 2006 i'r casgliad y byddai'r holl amcanion yn cael eu cyflawni ac na fyddai angen Asesiad Manwl. Cyflwynodd Cyngor Sir Ddinbych Adroddiadau Cynnydd Blynyddol ar ansawdd aer yn 2007 a 2008. Roedd yr adroddiadau yn ystyried y data monitro diweddaraf gan ddod i'r casgliad nad oedd unrhyw newid sylweddol i groniadau llygredd ac na fydd gormodiant mewn perthynas â'r amcanion ansawdd aer.

Cwblhawyd cam cyntaf y Bedwaredd Cylch o Adolygu ac Asesu, yr USA, ym mis Awst 2009 ac roedd hyn eto yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf o ran materion ansawdd aer Sir Ddinbych. Daeth USA 2009 i'r casgliad y bydd yr holl amcanion yn cael eu cyflawni ac na fydd angen Asesiad Manwl. Yn 2010 cyflwynodd Cyngor Sir Ddinbych Adroddiad Cynnydd Blynyddol ar ansawdd aer. Roedd yr adroddiad yn ystyried y data monitro diweddaraf gan ddod i'r casgliad nad oedd newid sylweddol i groniadau llygredd ac na fydd gormodiant mewn perthynas â'r amcanion ansawdd aer. Serch hynny, roedd lefel y Nitrogen Deuocsid ($NO_2$) ar Stryd y Dyffryn, Dinbych yn destun pryder. Gosodwyd tiwbiau tryledu ychwanegol i fonitro ansawdd aer y safle ac fel y cytunwyd gydag ymgynghorwyr Llywodraeth Cymru, adolygwyd y sefyllfa yn Adroddiad Cynnydd 2011. Arweiniodd hyn at gynnal Asesiad Manwl yn 2001 i asesu lefel y $NO_2$ mewn mwy o fanylder.

Daeth Asesiad Manwl 2011 i'r casgliad y dylid gohirio penderfynu ar p'un ai oes angen datgan Ardal Rheoli Ansawdd Aer ai peidio tan y bydd canlyniadau tiwbiau tryledu 2011 ar gael. Os nad oes gormodiant yn 2001 yna ni ddylid datgan yr ardal yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer. Roedd sawl prosiect adeiladu ar y gweill yn y dref rhwng 2009 a 2011 ac mae'n bosib bod y rheiny wedi cynyddu traffig llonydd ac allyriadau cysylltiedig.

Cwblhawyd cam cyntaf y Pumed Cylch o Adolygu ac Asesu, yr USA, ym mis Mehefin 2012. Daeth yr adroddiad i'r casgliad nad oedd gormodiant mewn perthynas ag amcanion ansawdd aer yn y sir yn 2011. Dangosodd y dulliau monitro bod lleihad yn y croniadau $NO_2$ yn y rhan fwyaf o'r safleoedd monitro o gymharu â chroniadau 2010. Nid oedd gormodiant 2010 wedi ei ailadrodd. Yn unol ag argymhellion Asesiad Manwl 2011, nid oedd yn rhaid datgan yr ardal yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer. Yn 2013 cyflwynodd Cyngor Sir Ddinbych Adroddiad Cynnydd Blynyddol ar ansawdd aer. Roedd yr adroddiadau yn ystyried y data monitro diweddaraf gan ddod i'r casgliad nad oedd unrhyw newid sylweddol i groniadau llygredd ac na fydd gormodiant mewn perthynas â'r amcanion ansawdd aer.

# 2 Data Monitro Newydd

## 2.1 Crynodeb o'r Monitro a Wnaed

### 2.1.1 Safleoedd Monitro Awtomatig

Nid oes monitro awtomatig yn cael ei wneud yn Sir Ddinbych ar hyn o bryd.

### 2.1.2 Safleoedd Monitro Anawtomatig

Bu i Gyngor Sir Ddinbych fonitro 26 safle tiwb tryledu $NO_2$ yn 2012 (gweler llun 2.1). Yn ystod 2013 diystyrwyd pum safle (DBR12, DBR39, DBR40, DBR41 a DBR42) a sefydlwyd pum safle newydd (DBR49, DBR50, DBR51, DBR52 a DBR53).

Cyflenwyd a dadansoddwyd y tiwbiau tryledu gan Grŵp Gwasanaethau Amgylcheddol Didcot (ESG). Cafodd y tiwbiau eu paratoi drwy roi aceton:triethanolamin (50:50) ar y gridiau cyn i'r tiwbiau gael eu gosod. Datsugnwyd y tiwbiau yn defnyddio dŵr distyll a dadansoddwyd yr echdyniad yn defnyddio dadansoddyn awtomatig llif segmentiedig gyda datgeliad uwch-fioled. Mae Grŵp Gwasanaethau Amgylcheddol yn cymryd rhan yn y Cynllun Dadansoddi Gweithleoedd ar gyfer Hyfedredd a dadansoddi'r tiwbiau tryledu $NO^2$. Mae hyn yn darparu meini prawf perfformiad llym ar gyfer labordai, felly mae sicrhau bod croniadau $NO_2$ yn cael eu hadrodd yn bwysig. Yn WASP mae rowndiau data 117 hyd at 124 o (Ebrill 2012 i fis Mawrth 2014) ESG wedi sgorio 100% ar gyfer pob rownd. Mae'r canran sgôr yn adlewyrchu'r canlyniadau boddhaol yn seiliedig ar sgôr-z o $< \pm 2$.

Mae ffactor addasu rhag tuedd wedi ei gymhwyso i'r data, sef amcangyfrif o'r gwahaniaeth rhwng croniadau tiwbiau tryledu a monitro parhaus, tybiwn fod yr olaf o'r ddau ddull yma yn fwy manwl. Mae cyngor technegol LAQM.TG (09) yn darparu cyngor o ran defnyddio'r ffactor addasu rhag tuedd i gywiro tiwbiau tryledu. Gellir defnyddio astudiaethau triphlyg wedi eu cydleoli i benderfynu ar ffactor addasu rhag tuedd lleol yn seiliedig ar gymharu canlyniadau tiwbiau tryledu gyda data dadansoddwyr parhaus $NO_X$ / $NO_2$. Fel arall, mae cronfa ddata adolygiadau cyd-

leoliad tiwbiau tryledu yn darparu ffactorau tuedd ar gyfer y labordy perthnasol a'r dull paratoi.

Nid yw Cyngor Sir Ddinbych yn gweithredu unrhyw safle monitro $NO_2$ parhaus ac o'r herwydd nid oes modd cyfrifo ffactor addasu rhag tuedd lleol. Yn sgil absenoldeb ffactor lleol, defnyddiwyd ffactor addasu rhag tuedd cenedlaethol. Mae'r ffactor hwn, a gyfrifwyd yn 0.80 ar gyfer 2013 yn seiliedig ar 28 astudiaeth, wedi ei gymryd o wefan Defra:-
http://laqm.defra.gov.uk/documents/Database_Diffusion_Tube_Bias_Factors-v07_13-Final.xls.

http://laqm.defra.gov.uk/documents/Database_Diffusion_Tube_Bias_Factors-v03_14-Final-v2.xls

Ar gyfer blynyddoedd blaenorol, 2008 hyd at 2012, cymerwyd y ffactorau addasu rhag tuedd o adroddiadau blynyddol Rheoli Ansawdd Aer Lleol blaenorol. Y ffactorau a ddefnyddiwyd oedd 0.83 (2008), 0.82 (2009), 0.84 (2010) 0.83 (2011), a 0.79 (2012).

Nid oes unrhyw astudiaeth cydleoli wedi ei chynnal yn Sir Ddinbych ac nid yw'r canlyniadau wedi eu haddasu o ran pellter ar gyfer datguddiad perthnasol.


**Ffigur 2.1 Map o Safleoedd Monitro Anawtomatig**




N
W
E
S
Graddfa/Scale: 1: 7500
Dyddiad/Date: 15/09/2014
Dalen Fap/Map Sheet: SJ0181SW
CYNGOR
Sir Ddinbych
Denbighshire
COUNTY COUNCIL
IRB Sta
Offices
PO
Liby
Gladstone Bridge
School
Playing Field
PW
Pol Sta
Bus Sta
Sta
Football Ground
Pav
Botanical Gardens
Coronation Gardens
Glanaber Trading Estate
Depot
Ysgol
Ysgol Gynradd Eglwys Crist
Sch
Wks
Factory
The Cut
Pwll Brickfields Pond
Slipway
Car Park
Coll
El Sub Sta
Ysgol Tir Morfa
Sports Ground
Resources
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2014 Arolwg Ordnans 100023408
© Crown copyright and database rights 2014 Ordnance Survey 100023408

CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

Graddfa/Scale: 1: 7500
Dyddiad/Date: 15/09/2014
Dalen Fap/Map Sheet: SJ0682NE




Graddfa/Scale: 1: 7500
Dyddiad/Date: 15/09/2014
Dalen Fap/Map Sheet: SJ0374NW
Gwernigron
Plas Coch
Wern Bach
Spring Gardens
Sewage Works
Pen-y-bryn
Bryn George
Cae Dorlan
Track
Path
ROE PARC
HEN WALIAU
Cattle Market
Hotel
Cricket Ground
The Roe
Pav
Liby
F Sta
FB
Ysgol
Cycle Path
PANT GLAS
Pen-y-bryn Boderw
Pen-y-bryn Helsby
HEOL ESGOB
Gas Gov
ST ASAPH C
CWRT ASHLY
DEAN'S WALK
HEOL CLWYD
BRO HAVARD
St Asaph Bridge
Esgobty Farm
Pen Rhewl
MILL STREET
LOWER STREET
HIGH STREET
Football Ground
Llwyn Elwy
Y Bwythyn
Wks
Pen y Bryn
Elwy Dale
Rose Hill Nurseries
Works
Fron Las
Glanelwy
Pen-y-clink
Cornel
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2014 Arolwg Ordnans 100023408
© Crown copyright and database rights 2014 Ordnance Survey 100023408


Graddfa/Scale: 1: 7500
Dyddiad/Date: 15/09/2014
Dalen Fap/Map Sheet: SJ0566SW
CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL
DENBIGH C
DINBYCH/ DENBIGH
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2014 Arolwg Ordnans 100023408
© Crown copyright and database rights 2014 Ordnance Survey 100023408



N
W
E
S
Graddfa/Scale: 1: 7500
Dyddiad/Date: 15/09/2014
Dalen Fap/Map Sheet: SJ1258SW
CYNGOR
Sir Ddinbych
Denbighshire
COUNTY COUNCIL
Council Depot
Business Centre
Lon Parcwr Industrial Park
Meadow Croft
Depot
Trad Est
Allot Gdns
Superstore
Council Offices
Craft Centre
Car Pk
Sports Field
Tel Ex
Sports Ground
Football Ground
Pavilion
School
F Sta
Amb Sta
County Offices
War Meml
Offices
Mon
PO
TH
PW
Sch
Hospl
Liby
Pol Sta
Pont Howkin
Cae Ddol
Ruthin Castle (rems of)
Mound
The Coach House
Castle Farm
Hotel
Craigle
Rugby Field
Haw House
Scot House
Gorsedd Circle
Bryn Rhydd
Subway
Weir
Tunnel Bridge
Castle Park
Track
Park Cottage
Castle Park Farm
Felin Ysguboriau
RUTHIN C
Parc y Castell/ Castle Park
Path
Drain
FB
58m
74m
79m
71m
61m
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2014 Arolwg Ordnans 100023408
© Crown copyright and database rights 2014 Ordnance Survey 100023408

## Tabl 2.1 Manylion Safleoedd Monitro Anawtomatig

| Enw'r Safle | Math o Safle | Cyfeirnod Grid | Grid Cyf | Uchder y safle (m) | Llygryddion a Fonitrwyd | Mewn AQMA? | A oes Dadansoddydd Parhaus ar yr un safle â'r cyfarpar monitro (O/N) | Datguddiad Perthnasol? *(Y/N a phellter (m) o'r amlygiad perthnasol)* | Pellter o Ymyl y Ffordd Agosaf *(Amh os nad yw'n berthnasol)* | A yw'r Lleoliad Hwn yn Ddatguddiad Achos Gwaethaf? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffordd Wellington, Y Rhyl | Ymyl y Ffordd | 300846 | 381407 | 2.3 | $NO_2$ | N | N | Y - 0.5 | 2.2 | Y |
| 10 Stryd Cinmel, y Rhyl | Ymyl y Ffordd | 300903 | 381292 | 2.5 | $NO_2$ | N | N | Y - 2.5 | 0.3 | Y |
| 5 Cilgant San Siôr, y Rhyl | Maestrefol | 301640 | 381800 | 2.1 | $NO_2$ | N | N | Y - 0 | 15.1 | Y |
| 73 Bryn Coed Park, y Rhyl | Maestrefol | 302128 | 380611 | 2.3 | $NO_2$ | N | N | Y - 4.7 | 1.7 | Y |
| 2 Pant Glas, Llanelwy | Maestrefol | 302938 | 374638 | 2.0 | $NO_2$ | N | N | Y - 9.6 | 27.5 | Y |
| Ger 1 Stryd y Dyffryn, Dinbych | Ymyl y Ffordd | 305276 | 366119 | 2.4 | $NO_2$ | N | N | Y - 0 | 1.0 | Y |
| 31 Ffordd Rhuthun, Dinbych | Ymyl y Ffordd | 305878 | 366424 | 2.5 | $NO_2$ | N | N | Y - 1.4 | 2.5 | Y |
| 1 Plas Elwy Orchard, y Ro, Llanelwy | Maestrefol | 303270 | 374640 | 2.0 | $NO_2$ | N | N | Y - 0 | 19.4 | Y |
| 7 Roe Park, Llanelwy | Maestrefol | 303197 | 374830 | 2.0 | $NO_2$ | N | N | Y - 0 | 14 | Y |
| 13 Roe Park, Llanelwy | Maestrefol | 303263 | 374867 | 2.0 | $NO_2$ | N | N | Y - 0 | 47 | Y |
| Denbigh Cutters, 21 | Ymyl y Ffordd | 305330 | 366160 | 2.2 | $NO_2$ | N | N | Y - 0 | 3 | Y |

| Enw'r Safle | Math o Safle | Cyfeirnod Grid | Grid Cyf | Uchder y safle (m) | Llygryddion a Fonitrwyd | Mewn AQMA? | A oes Dadansoddydd Parhaus ar yr un safle â'r cyfarpar monitro (O/N) | Datguddiad Perthnasol? *(Y/N a phellter (m) o'r amlygiad perthnasol)* | Pellter o Ymyl y Ffordd Agosaf *(Amh os nad yw'n berthnasol)* | A yw'r Lleoliad Hwn yn Ddatguddiad Achos Gwaethaf? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Stryd y Dyffryn, Dinbych | | | | | | | | | | |
| Ger 1 Pwll y Grawys, Dinbych | Ymyl y Ffordd | 305026 | 366078 | 2.2 | $NO_2$ | N | N | Y – 2 | 1.9 | Y |
| 25 Heol y Parc, Rhuthun. | Ymyl y Ffordd | 312106 | 358306 | 2.2 | $NO_2$ | N | N | Y - 0 | 2.9 | Y |
| Cyferbyn â HSBC, Stryd y Dyffryn, Dinbych | Ymyl y Ffordd | 305314 | 366153 | 2.6 | $NO_2$ | N | N | Y – 5.5 | 2.5 | Y |
| Cyferbyn â Fferyllfa Rowlands, Stryd y Dyffryn, Dinbych | Ymyl y Ffordd | 305386 | 366191 | 2.6 | $NO_2$ | N | N | Y – 1.7 | 1.2 | Y |
| Cyferbyn â 50 Stryd y Dyffryn, Dinbych | Ymyl y Ffordd | 305467 | 366246 | 2.5 | $NO_2$ | N | N | Y – 3.9 | 2.0 | Y |
| Depo Haul Fryn, Rhuthun | Ymyl y Ffordd | 312789 | 358231 | 2.3 | $NO_2$ | N | N | Y -1 | 3.5 | Y |
| Cyferbyn â 62 Stryd Rhos, Rhuthun | Ymyl y Ffordd | 312913 | 358273 | 2.6 | $NO_2$ | N | N | Y - 0 | 2.3 | Y |
| Banc y Natwest, Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun | Ymyl y Ffordd | 312377 | 358258 | 2.3 | $NO_2$ | N | N | N | 1.0 | Y |

| Enw'r Safle | Math o Safle | Cyfeirnod Grid | Grid Cyf | Uchder y safle (m) | Llygryddion a Fonitrwyd | Mewn AQMA? | A oes Dadansoddydd Parhaus ar yr un safle â'r cyfarpar monitro (O/N) | Datguddiad Perthnasol? *(Y/N a phellter (m) o'r amlygiad perthnasol)* | Pellter o Ymyl y Ffordd Agosaf *(Amh os nad yw'n berthnasol)* | A yw'r Lleoliad Hwn yn Ddatguddiad Achos Gwaethaf? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ger Swayne Johnston Cyfreithwyr, Stryd y Dyffryn, Dinbych | Ymyl y Ffordd | 305308 | 366130 | 2.9 | $NO_2$ | N | N | N | 1.8 | Y |
| Milk Bar, Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun | Ymyl y Ffordd | 312379 | 358315 | 2.4 | $NO_2$ | N | N | Y -1 | 3.9 | Y |
| 7 Stryd y Dyffryn, Dinbych | Ymyl y Ffordd | 305290 | 366130 | 2.3 | $NO_2$ | N | N | N | 2.0 | Y |
| 2 Ffordd y Rhyl, Dinbych | Ochr Palmant | 305805 | 366480 | 2.4 | $NO_2$ | N | N | Y - 1.3 | 0.8 | Y |
| 47 Stryd Fawr, Dinbych | Ymyl y Ffordd | 305193 | 366093 | 2.4 | $NO_2$ | N | N | N | 5.9 | Y |
| Cyferbyn â'r Co-op, Stryd Fawr, Dinbych | Ymyl y Ffordd | 305229 | 366082 | 2.3 | $NO_2$ | N | N | N | 5.3 | Y |
| Cyferbyn â Fairyburn, Ffordd y Rhyl, Dinbych | Ochr Palmant | 305863 | 366661 | 2.5 | $NO_2$ | N | N | Y - 11.4 | 0.9 | Y |
| 79 Stryd Fawr, Prestatyn | Ymyl y Ffordd | 306580 | 382906 | 2.6 | $NO_2$ | N | N | N | 1.0 | N |
| Ger Sarone Court, 79 Stryd Fawr, Prestatyn | Ymyl y Ffordd | 306795 | 382638 | 2.6 | $NO_2$ | N | N | N | 1.0 | N |

## 2.2 Cymharu Canlyniadau'r Monitro ag Amcanion Ansawdd Aer

### 2.2.1 Nitrogen Deuocsid ($NO_2$)

Ceir dau Amcan Ansawdd Aer ar gyfer nitrogen deuocsid, sef:

- Cymedr blynyddol o 40µg/m$^3$, a'r
- cymedr 1 awr o 200µg/m$^3$ na ddylid ei groesi mwy na 18 gwaith y flwyddyn.

Nid yw $NO_2$ yn cael ei fonitro'n barhaus yn Sir Ddinbych; felly nid oes modd asesu a yw'n cadw at yr amcan cymedr 1 awr.

Mae crynodeb o ddata tiwb tryledu nitrogen deuocsid yn Nhabl 2.2. Mae'r data misol llawn i'w gael yn Atodiad B.

Yn 2013 ni chafwyd gormodiant mewn perthynas ag Amcanion Ansawdd Aer cyfartalog blynyddol ar unrhyw safle.

Casglwyd data da ar draws y rhwydwaith fonitro, ac eithrio safle DBR39 a DBR40 oedd â data 2 fis yn unig ar gael oherwydd bod y safleoedd wedi eu tynnu o'r rhwydwaith monitro. Gan nad oedd ond data 2 fis ar gael, nid oedd yn bosib dadansoddi'r data o'r safle hwn.

Nid oes yr un safle gyda chymedr blynyddol sy'n fwy na 60µg/m$^3$, felly nid oes yr un safle mewn perygl o weld gormodiant mewn perthynas â'r Amcan Ansawdd Aer bob awr.

**Tabl 2.2 Canlyniadau Tiwbiau Tryslediad $NO_2$ 2013**

| ID y Safle | Lleoliad | Math o Safle | O fewn AQMA? | Triphlyg neu Diwb wedi'i Gydleoli | Data wedi'i chasglu 2011 (Nifer y Mis neu%) | Data gyda llai na 9 mis wedi ei gasglu mewn blwyddyn (Y/N) | Cadarnhau a yw data wedi'i bellter gywiro (Y/N) | Crynodiad Cymedrig Blynyddol (Ffactor Addasu Rhag Tuedd = 0.80) 2013 (ug/m$^3$) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DBK1 | Ffordd Wellington, Y Rhyl | Ymyl y Ffordd | N | N | 12 | N | N | 25.9 |
| DBR2 | 10 Stryd Cinmel, y Rhyl | Ymyl y Ffordd | N | N | 12 | N | N | 29.3 |
| DBB3 | 5 Cilgant San Siôr, y Rhyl | Maestrefol | N | N | 12 | N | N | 10.4 |
| DBB4 | 73 Bryn Coed Park, y Rhyl | Maestrefol | N | N | 9 | N | N | 11.9 |
| DBR5 | 2 Pant Glas, Llanelwy | Maestrefol | N | N | 12 | N | N | 15.3 |
| DBR48 | Cyferbyn ag 1 Stryd y Dyffryn, Dinbych | Ymyl y Ffordd | N | N | 12 | N | N | 29.3 |
| DBR23 | 31 Ffordd Rhuthun, Dinbych | Ymyl y Ffordd | N | N | 12 | N | N | 19.5 |
| DBR8 | 1 Plas Elwy Orchard, y Ro, Llanelwy | Maestrefol | N | N | 12 | N | N | 16.9 |
| DBR9 | 7 Roe Park, Llanelwy | Maestrefol | N | N | 11 | N | N | 21.3 |
| DBR10 | 13 Roe Park, Llanelwy | Maestrefol | N | N | 12 | N | N | 16.2 |
| DBR24 | Denbigh Cutters, 21 Stryd y Dyffryn, Dinbych | Ymyl y Ffordd | N | N | 12 | N | N | 34.1 |
| DBR51 | Ger 1 Pwll y Grawys, Dinbych | Ymyl y Ffordd | N | N | 9 | N | N | 28.1 |
| DBR20 | 25 Heol y Parc, Rhuthun | Ymyl y Ffordd | N | N | 12 | N | N | 24.0 |
| DBR43 | Cyferbyn â HSBC, Stryd y Dyffryn, Dinbych | Ymyl y Ffordd | N | N | 11 | N | N | 36.7 |

| ID y Safle | Lleoliad | Math o Safle | O fewn AQMA? | Triphlyg neu Diwb wedi'i Gydleoli | Data wedi'i chasglu 2011 (Nifer y Mis neu%) | Data gyda llai na 9 mis wedi ei gasglu mewn blwyddyn (Y/N) | Cadarnhau a yw data wedi'i bellter gywiro (Y/N) | Crynodiad Cymedrig Blynyddol (Ffactor Addasu Rhag Tuedd = 0.80) 2013 (ug/m$^3$) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DBR44 | Cyferbyn â Fferyllfa Rowlands, Stryd y Dyffryn, Dinbych | Ymyl y Ffordd | N | N | 12 | N | N | 28.8 |
| DBR45 | Cyferbyn â 50 Stryd y Dyffryn, Dinbych | Ymyl y Ffordd | N | N | 12 | N | N | 24.9 |
| DBR37 | Depo Haul Fryn, Rhuthun | Ymyl y Ffordd | N | N | 12 | N | N | 29.4 |
| DBR38 | Cyferbyn â 62 Stryd Rhos, Rhuthun | Ymyl y Ffordd | N | N | 12 | N | N | 19.9 |
| DBR39 | Banc y Natwest, Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun | Ymyl y Ffordd | N | N | 2 | N | N | 27.2* |
| DBR52 | Ger Swayne Johnston Cyfreithwyr, Stryd y Dyffryn, Dinbych | Ymyl y Ffordd | N | N | 9 | N | N | 30.5 |
| DBR40 | Milk Bar, Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun | Ymyl y Ffordd | N | N | 2 | N | N | 20.0* |
| DBR53 | 7 Stryd y Dyffryn, Dinbych | Ymyl y Ffordd | N | N | 10 | N | N | 31.7 |
| DBR31 | 2 Ffordd y Rhyl, Dinbych | Ochr Palmant | N | N | 12 | N | N | 19.6 |
| DBR32 | 47 Stryd Fawr, Dinbych | Ymyl y Ffordd | N | N | 11 | N | N | 20.9 |
| DBR33 | Cyferbyn â'r Co-op, Stryd Fawr, Dinbych | Ymyl y Ffordd | N | N | 11 | N | N | 25.7 |
| DBR34 | Cyferbyn â Fairyburn, Ffordd y Rhyl, Dinbych | Ochr Palmant | N | N | 12 | N | N | 15.8 |
| DBR49 | 79 Stryd Fawr, Prestatyn | Ymyl y Ffordd | N | N | 10 | N | N | 18.8 |
| DBR50 | Ger Sarone Court, Stryd Fawr, Prestatyn | Ymyl y Ffordd | N | N | 12 | N | N | 18.5 |


* Dylid cymhwyso’r cymedr i flwyddyn, fel ym Mlwch 3.2 CT (09), os casglwyd gwerth llai na 9 mis o ddata. Nid oedd modd cymhwyso’r cymedr i flwyddyn gan mai ond data un mis oedd ar gael.

Tabl 2.3 Canlyniadau Tiwbiau Trylediad $NO_2$ (2009 i 2013)

| ID y Safle | Math o Safle | O fewn AQMA? | **Crynodiad Cymedrig Blynyddol (addaswyd rhag tuedd) $\mu g/m^3$** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **2009 (Ffactor Addasu Rhag Tuedd = 0.82)** | **2010 (Ffactor Addasu Rhag Tuedd = 0.84)** | **2011 (Ffactor Addasu Rhag Tuedd = 0.83)** | **2012 (Ffactor Addasu Rhag Tuedd = 0.79)** | **2013 (Ffactor Addasu Rhag Tuedd = 0.80)** |
| DBK1 | Ymyl y Ffordd | N | 28.1 | 28.3 | 26.3 | 25.3 | 25.9 |
| DBR2 | Ymyl y Ffordd | N | 32.8 | 31.3 | 28.9 | 27.9 | 29.3 |
| DBB3 | Maestrefol | N | 11.5 | 12.3 | 10.4 | 10.9 | 10.4 |
| DBB4 | Maestrefol | N | 11.9 | 15.5 | 11.9 | 11.1 | 11.9 |
| DBR5 | Maestrefol | N | 15.1 | 19.2 | 13.9 | 16.1 | 15.3 |
| DBR46 | Ymyl y Ffordd | N | - | 19.9 | 19.1 | - | - |
| DBR47 | Maestrefol | N | - | - | 10.3 | 15.0 | - |
| DBR48 | Ymyl y Ffordd | N | - | - | - | 28.8 | 29.3 |
| DBR23 | Ymyl y Ffordd | N | 22.6 | 23.9 | 18.2 | 18.9 | 19.5 |
| DBR8 | Maestrefol | N | 17.2 | 20.4 | 16.9 | 17.1 | 16.9 |
| DBR9 | Maestrefol | N | 22.8 | 22.3 | 23.1 | 23.6 | 21.3 |
| DBR10 | Maestrefol | N | 17.0 | 18.1 | 16.7 | 16.8 | 16.2 |
| DBR24 | Ymyl y Ffordd | N | 40.8 | **43.3** | 35.1 | 34.4 | 34.1 |
| DBR12 | Maestrefol | N | 13.6 | 16.3 | 13.0 | 13.9 | - |
| DBR20 | Ymyl y Ffordd | N | 26.6 | 24.7 | 23.5 | 24.4 | 24.0 |
| DBR43 | Ymyl y Ffordd | N | - | **42.5** | 34.3 | 37.7 | 36.7 |
| DBR44 | Ymyl y Ffordd | N | - | 32.1 | 31.3 | 28.5 | 28.8 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DBR45 | Ymyl y Ffordd | N | - | 28.3 | 27.1 | 25.7 | 24.9 |
| DBR37 | Ymyl y Ffordd | N | 33.0 | 38.2 | 29.5 | 29.9 | 29.4 |
| DBR38 | Ymyl y Ffordd | N | 20.6 | 21.6 | 20.1 | 21.0 | 19.9 |
| DBR39 | Ymyl y Ffordd | N | 20.3 | 22.7 | 18.0 | 17.4 | 27.2 |
| DBR40 | Ymyl y Ffordd | N | 15.5 | 17.0 | 12.2 | 13.6 | 20.0 |
| DBR31 | Ymyl Palmant | N | 22.3 | 24.3 | 20.3 | 20.1 | 19.6 |
| DBR32 | Ymyl y Ffordd | N | 23.1 | 24.4 | 19.6 | 20.9 | 20.9 |
| DBR33 | Ymyl y Ffordd | N | 28.8 | 28.9 | 27.4 | 27.3 | 25.7 |
| DBR34 | Ymyl Palmant | N | 16.8 | 20.8 | 16.8 | 16.9 | 15.8 |
| DBR41 | Ymyl y Ffordd | N | 12.4 | 18.4 | 11.2 | 11.7 | - |
| DBR42 | Ymyl y Ffordd | N | 14.0 | 18.2 | 12.1 | 13.0 | - |
| DBR49 | Ymyl y Ffordd | N | - | - | - | - | 18.8 |
| DBR50 | Ymyl y Ffordd | N | - | - | - | - | 18.5 |
| DBR51 | Ymyl y Ffordd | N | - | - | - | - | 28.1 |
| DBR52 | Ymyl y Ffordd | N | - | - | - | - | 30.5 |
| DBR53 | Ymyl y Ffordd | N | - | - | - | - | 31.7 |

**Ffigur 2.2 Tueddiadau yn y Crynodiadau Nitrogen Deuocsid Cymedrig Blynyddol a Fesurwyd mewn Safleoedd Monitro Tiwbiau Tryledriad**




Mae'r llun uchod yn dangos tueddiadau croniadau $NO_2$ ymhob un o'r safleoedd monitro o 2009 i 2013. Gellir gweld o'r llun bod croniadau 2013 yn is na chroniadau 2010 (heblaw DBR39 a DBR40 a ddatgelwyd am 2 fis yn unig ac felly'n uwch na'r cyfartaledd blynyddol). Mae canlyniadau 2013 ar ben isaf y duedd 5 mlynedd ar gyfer y rhan fwyaf o safleoedd.

### 2.2.2 Mater Gronynnol ($PM_{10}$)

Nid oes unrhyw waith monitro $PM_{10}$ yn Sir Ddinbych.

### 2.2.3 Sylffwr Deuocsid ($SO_2$)

Nid oes unrhyw waith monitro Sylffwr Deuocsid yn Sir Ddinbych.

### 2.2.4 Bensen

Nid oes unrhyw waith monitro Bensen yn Sir Ddinbych.

### 2.2.5 Crynodeb o Gydymffurfiaeth ag Amcanion Safonau Ansawdd Aer

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi archwilio'r canlyniadau o waith monitro yn y sir. Mae crynodiadau'r holl lygryddion yn is na'r terfynau yn yr amcanion, felly nid oes angen cynnal Asesiad Manwl.

# 3 Datblygiadau Lleol Newydd

## 3.1 Ffynonellau Traffig Ffyrdd

Nid oes ffynonellau traffig ffyrdd newydd nad ydynt wedi eu hystyried yn briodol yn y cylchoedd Adolygu ac Asesu blaenorol.

## 3.2 Ffynonellau Cludiant Eraill

Nid oes ffynonellau cludiant newydd nad ydynt wedi eu hystyried yn briodol yn y cylchoedd Adolygu ac Asesu blaenorol.

## 3.3 Ffynonellau Diwydiannol

Nid oes ffynonellau diwydiannol newydd nad ydynt wedi eu hystyried yn briodol yn y cylchoedd Adolygu ac Asesu blaenorol.

## 3.4 Ffynonellau Masnachol a Domestig

Mae'r Cyngor wedi derbyn sawl cais ar gyfer codi ffatri hylosgi biomas. Mae pob cais wedi ei asesu yn defnyddio'r cyfrifiannell biomas sydd i'w gael trwy'r Ddesg Gymorth ar gyfer Ansawdd Aer Lleol ar wefan Defra:-http://laqm.defra.gov.uk/review-and-assessment/tools/emissions.html#biomass.

Nid yw'r ceisiadau yn arwain at ormodiant o ran y targed ac felly mae'n annhebygol y byddant yn achosi gormodiant mewn perthynas â'r amcanion.

Ceisiadau boeleri biomas:-

| Lleoliad | Cyfeirnod Cynllunio | Penderfyniad | Aseswyd |
|---|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd y Rhyl, y Rhyl | 45/2012/0383 | Cymeradwywyd | Do |
| Clifford Jones Timber, Rhuthun | 02/2012/1629 | Heb ei benderfynu | Do |
| Siop Sainsabury's, y Rhyl | 45/2013/0305 | Cymeradwywyd | Do |
| Bryn Oerog, Trefor | 03/2013/0115 | Cymeradwywyd | Do |
| Melinau Llifio Bryn Ffynnon, Llanferres | 21/2014/0427 | Heb ei benderfynu | Do |

## 3.5 Datblygiadau Newydd gyda Ffynonellau ar Ffo neu Heb eu Rheoli

Nid oes datblygiadau newydd gyda ffynonellau byrhoedlog neu heb eu rheoli nad ydynt wedi eu hystyried yn briodol yn y cylchoedd Adolygu ac Asesu blaenorol.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cadarnhau nad oes datblygiadau lleol newydd / newydd eu hadnabod a all effeithio ar ansawdd aer o fewn ardal yr Awdurdod Lleol.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cadarnhau bod y canlynol i gyd wedi cael eu hystyried:

- **Ffynonellau traffig ffyrdd**
- **Ffynonellau cludiant eraill**
- **Ffynonellau diwydiannol**
- **Ffynonellau masnachol a domestig**
- **Datblygiadau newydd gyda ffynonellau ar ffo neu heb eu rheoli.**

# 4 Polisïau Cynllunio Ansawdd Aer

Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ddinbych 2006-2021 ym mis Mehefin 2013 ac mae ar gael ar-lein yn:-

http://denbighddms.wisshost.net/webfiles/Adoption/Adopted%20LDP%20text%20english.pdf

Mae Polisi RD 1, ‘Datblygu cynaliadwy ac o safon dda’ ar dudalen 14 o’r ddogfen uchod yn berthnasol i faterion ansawdd aer.

# 5 Cynlluniau a Strategaethau Cludiant Lleol

Mae Cynlluniau a Strategaethau Cludiant Lleol y Cyngor wedi eu cynnwys yn fersiwn diweddaraf TAITH – Cynllun Cludiant Rhanbarthol Gogledd Cymru. Mae'r ddogfen hon ar gael ar y wefan ganlynol:-

http://www.taith.gov.uk/wp-content/uploads/2012/06/FINAL-RTP-30-09-091.pdf

Taith yw Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, grŵp o chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi cyfrifoldeb iddo baratoi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Mae pedwar consortiwm i gyd. Mae'r lleill yn delio â Chanolbarth Cymru (Trac), De-ddwyrain Cymru (SEWTA) a De Orllewin Cymru (SWWITCH).

# 6 Casgliadau a Chamau Gweithredu Bwriedig

## 6.1 Casgliadau'r Data Monitro Newydd

Mae'r adolygiad o ddata monitro newydd wedi dangos nad oes gormodiant mewn perthynas ag amcanion Safonau Ansawdd Aer yn 2013 mewn unrhyw safle yng Nghyngor Sir Ddinbych. Felly, nid yw'n ofynnol datgan Ardal Rheoli Ansawdd Aer na mynd ymlaen i gynnal asesiad manwl ar hyn o bryd.

## 6.2 Casgliadau'n ymwneud â Datblygiadau Lleol Newydd

Mae'r adolygiad o ffynonellau llygredd o fewn Sir Ddinbych yn dangos bod sawl cais i godi ffatri hylosgi biomas wedi dod i law. Mae'r holl geisiadau wedi eu hasesu yn defnyddio cyfrifiannell biomas. Nid yw'r ceisiadau yn arwain at ormodiant o ran y targed ac felly mae'n annhebygol y byddant yn achosi gormodiant mewn perthynas â'r amcanion. Felly nid oes yn rhaid cynnal Asesiad Manwl.

## 6.3 Camau Gweithredu Bwriedig

Mae'r Adroddiad Cynnydd wedi ystyried y data monitro newydd ac adolygiad o ffynonellau allyriadau yn yr ardal. Mae'r asesiad wedi canfod nad oes gormodiant, mewn perthynas â'r amcanion, yn sgil ffynonellau allyriadau presennol a newydd.

Mae'r camau gweithredu arfaethedig yn sgil yr Adroddiad Cynnydd fel a ganlyn:

- Parhau i fonitro ansawdd aer o fewn yr ardal; a
- Symud ymlaen i Asesiad Sgrinio a Diweddaru yn 2015.

# 7 Cyfeiriadau


- Canllawiau Technegol Rheoli Ansawdd Aer Lleol LAQM TG. (09) Chwefror 2009, a gyhoeddwyd gan Defra mewn partneriaeth â Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Adran yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon
- Cyngor Sir Ddinbych 2009 – Asesiad Diweddaru a Sgrinio
- Cyngor Sir Ddinbych 2010 – Adroddiad Cynnydd
- Cyngor Sir Ddinbych 2011 – Adroddiad Cynnydd
- Cyngor Sir Ddinbych 2011 – Asesiad Manwl
- Cyngor Sir Ddinbych 2012 – Asesiad Diweddaru a Sgrinio
- Cyngor Sir Ddinbych 2013 – Adroddiad Cynnydd
- Mae ceisiadau cynllunio Cyngor Sir Ddinbych ar gael ar wefan yr adran gynllunio:-

http://www.denbighshire.gov.uk/en-gb/DNAP-8B8F4E

- TAITH – Cynllun Cludiant Rhanbarthol Gogledd Cymru dyddiedig 30 Medi 2009. Mae'r ddogfen hon ar gael ar:-

http://www.taith.gov.uk/wp-content/uploads/2012/06/FINAL-RTP-30-09-091.pdf

- Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 - 2021
  Mae'r ddogfen hon ar gael ar y wefan ganlynol:-

http://denbighddms.wisshost.net/webfiles/Adoption/Adopted%20LDP%20text%20english.pdf

- Taenlen Ffactor Addasu Tuedd o wefan:

http://laqm.defra.gov.uk/documents/Database_Diffusion_Tube_Bias_Factors-v03_14-Final-v2.xls

- Cyfrifiannell biomas o wefan:

http://laqm.defra.gov.uk/review-and-assessment/tools/emissions.html#biomass

# Atodiadau:

Atodiad A: Data Sicrhau Ansawdd / Rheoli Ansawdd (QA/QC)

Atodiad B: Canlyniadau tiwbiau tryledu Nitrogen Deuocsid ug/$m^3$ 2013

# Atodiad A: Data Sicrwydd Ansawdd / Rheoli Ansawdd

### Ffactorau Addasu Rhag Tuedd Tiwbiau Tryledu

Caiff y tiwbiau tryledu eu cyflenwi a'u dadansoddi gan Grŵp Gwasanaethau Amgylcheddol yn defnyddio 50% Triethanolamine (TEA) mewn dull paratoi aceton. Mae'r ffactor addasu tuedd ar gyfer 2013 yn 0.80 (yn seiliedig ar 28 o astudiaethau, fersiwn 03_14) fel a geir yn y gyfrifiannell addasu tuedd cenedlaethol.

### Ffactor o'r Astudiaethau Cydleoli Lleol

Nid oes gan Gyngor Sir Ddinbych unrhyw fonitor parhaus o fewn y sir ac felly nid oes astudiaeth cyd-leoliad ar gael i bennu ffactor tuedd lleol.

### Trafodaeth ar y Dewis o Ffactor i'w Ddefnyddio

Nid oes gan Gyngor Sir Ddinbych unrhyw fonitor parhaus o fewn y sir ac felly nid oes astudiaeth cyd-leoliad ar gael i bennu ffactor tuedd lleol. Felly defnyddiwyd y cyfrifiannell addasu rhag tuedd cenedlaethol, fel sydd wedi ei ddefnyddio ymhob un o'r adroddiadau Rheoli Ansawdd Aer Lleol blaenorol.

### Addasiad Monitro PM

Nid yw $PM_{10}$ yn cael ei fonitro yn y Sir.

### Addasiadau Data Tymor Byr a Thymor Hir

Roedd 26 o'r tiwbiau tryledu wedi casglu data a oedd yn bodloni'r meini prawf casglu 75% o ddata.

Bu i ddau safle (DBR39 a DBR40) fethu bodloni'r meini prawf o ran casglu data. Fodd bynnag, ni chafodd y data ei drosi'n werth blynyddol gan fod y data oedd ar gael yn rhy isel i gael gwerth blynyddol dibynadwy.

### Sicrwydd Ansawdd / Rheoli Ansawdd monitro awtomatig

Ni fu i Gyngor Sir Ddinbych ymgymryd ag unrhyw fonitro awtomatig yn 2013 ac felly nid oes trefnau Sicrwydd Ansawdd / Rheoli Ansawdd i adrodd amdanynt.

**QA/QC monitro tiwbiau tryledu**

Mae gan Grŵp Gwasanaethau Amgylcheddol (ESG Didcot) achrediad UKAS ac maent yn cymryd rhan yng Nghynllun Dadansoddi Gweithleoedd ar gyfer Hyfedredd (WASP) er mwyn dadansoddi tiwbiau tryledu $NO_2$ yn ogystal â chynnal yr Ymarfer Maes Blynyddol Rhyng-Gymharol ar $NO_2$. Mae hyn yn darparu meini prawf perfformiad llym ar gyfer labordai, felly mae'n sicrhau bod croniadau $NO_2$ a adroddir arnynt o safon uchel. Adolygwyd cyfrifiadau WASP yn 2011-2013 a darparwyd sgoriau-z ar gyfer labordai yn hytrach nag amcan werth. Y meini prawf ar gyfer penderfynu ar berfformiad labordai yw canran y canlyniadau sy'n cwrdd â sgôr-z <± 2 (boddhaol). Gan gymryd nad oes camgymeriad systematig wrth ddadansoddi fe ddylai 19 allan o 20 sgôr-z (95%) fodloni'r meini prawf 'boddhaol'. Ar gyfer cylchoedd 2013 bu i'r ESG Didcot sgorio 100% ar gyfer y treialon.

# Atodiad B.

Canlyniadau Dadansoddi Tiwbiau Tryledïad Nitrogen Diocsid

| Code | Enw'r Safle | Cyfeirif WAQF | Categori | Rhan o rwydw | Cyf Grid | Rhif Tiwb | Nitrogen Dioxide Concentration in Air (ug/m3) **2013** | | | | | | | | | | | | Rhif Tiwb | Cyfartaledd | Addasiad Tuedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gorsaf | | | Safle | DU | | | January | February | March | April | May | June | July | August | September | October | November | Rhagfyr | | | 0.8 |
| DBK1 | Ffordd Wellington, Y Rhyl | RHBC/006 | A | Ydy | SJ 008 814 | 1 | 44 | 33 | 38 | 36.5 | 25.3 | 27.5 | 32.6 | 26.8 | 26.7 | 30.8 | 36.9 | 30.5 | 1 | 32.38 | 25.91 |
| DBR2 | 10 Stryd Cinmel, y Rhyl | RHBC/017 | A | Ydy | SJ 009 813 | 2 | 47 | 27 | 46 | 42.1 | 27.6 | 31.4 | 33.5 | 31.5 | 30.2 | 38.1 | 48.3 | 36.8 | New2 | 36.63 | 29.30 |
| DBB3 | 5 Cilgant San Siôr, y Rhyl | RHBC/004 | C | Ydy | SJ 016 818 | 3 | 23 | 17 | 20 | 14 | 8 | 8.8 | 8.6 | 7.7 | 9.1 | 11.8 | 15.5 | 13.1 | 3 | 13.05 | 10.44 |
| DBB4 | 73 Bryn Coed Park, y Rhyl | RHBC/005 | C | Ydy | SJ 021 806 | 4 | 24 | | 22 | | 8.7 | 9.9 | 8.3 | 12.9 | 12.5 | | 22.8 | 12.2 | 4 | 14.81 | 11.85 |
| DBR5 | 2 Pant Glas, Llanelwy | RHBC/007 | B | Na | SJ 029 746 | 5 | 20 | 27 | 25 | 17.8 | 19.2 | 19.6 | 20.3 | 17.1 | 18.8 | 19.9 | 15.2 | 9.4 | 5 | 19.11 | 15.29 |
| DBR48 | Cyferbyn ag 1 Stryd y Dyffryn, Dinbych | RHBC/051 | A | Na | SJ 053 661 | 6 | 44 | 41 | 43 | 31.1 | 29.1 | 33.7 | 31.5 | 30.7 | 34.8 | 38.6 | 52.5 | 28.7 | New6 | 36.56 | 29.25 |
| DBR23 | 31 Ffordd Rhuthun, Dinbych | RHBC/026 | A | Na | SJ 059 664 | 7 | 33 | 30 | 26 | 21.4 | 20.6 | 18.6 | 14.8 | 17 | 23 | 25.6 | 43.4 | 18.6 | New7 | 24.33 | 19.47 |
| DBR8 | 1 Plas Elwy Orchard, y Ro, Llanelwy | RHBC/010 | B | Na | SJ 033 746 | 8 | 26 | 25 | 23 | 18.4 | 17.1 | 18.4 | 19 | 17 | 19.2 | 19.4 | 32.7 | 17.5 | 8 | 21.06 | 16.85 |
| DBR9 | 7 Roe Park, Llanelwy | RHBC/011 | B | Na | SJ 032 749 | 9 | 34 | 26 | 28 | 29.5 | 21.5 | 23.2 | 24.6 | 22.7 | 24.3 | 27.4 | | 31.4 | 9 | 26.60 | 21.28 |
| DBR10 | 13 Roe Park, Llanelwy | RHBC/012 | B | Na | SJ 033 749 | 10 | 32 | 22 | 26 | 22.8 | 12.7 | 15.4 | 15.8 | 13.8 | 16.5 | 18.3 | 26.4 | 21.3 | 10 | 20.25 | 16.20 |
| DBR24 | Denbigh Cutters, 21 Stryd y Dyffryn, Dinbych | RHBC/027 | A | Na | SJ 053 662 | 11 | 47 | 45 | 42 | 39.4 | 43.6 | 37.9 | 40.2 | 42.2 | 36.8 | 44.6 | 57.2 | 34.8 | New11 | 42.56 | 34.05 |
| DBR51 | Ger 1 Pwll y Grawys, Dinbych | RHBC/054 | A | Na | SJ 050 661 | 12 | 42 | 38 | 46 | | | 32.5 | 29.9 | F | 20.5 | 37 | 35 | 35.2 | 12 | 35.12 | 28.10 |
| DBR20 | 25 Heol y Parc, Rhuthun. | RHBC/023 | A | Na | SJ 121 583 | 13 | 35 | 35 | 33 | 25 | 26.8 | 26.3 | 25.5 | 27.2 | 27.8 | 31.4 | 41.3 | 25.9 | New 13 | 30.02 | 24.01 |
| DBR43 | Cyferbyn â HSBC, Stryd y Dyffryn, Dinbych | RHBC/046 | A | Na | SJ 053 662 | 14 | 45 | 50 | 47 | | 44.3 | 37.7 | 41.5 | 46.1 | 41.6 | 48 | 61.4 | 42 | New 14 | 45.87 | 36.70 |
| DBR44 | Cyferbyn â Fferyllfa Rowlands, Stryd y Dyffryn, Dinbyc | RHBC/047 | A | Na | SJ 054 662 | 15 | 32 | 44 | 40 | 36.4 | 33.1 | 33.6 | 33.4 | 34.6 | 33.3 | 35.1 | 48.7 | 27 | New 15 | 35.93 | 28.75 |
| DBR45 | Cyferbyn â 50 Stryd y Dyffryn, Dinbych | RHBC/048 | A | Na | SJ 055 662 | 16 | 37 | 34 | 39 | 33.1 | 23.6 | 26.7 | 26.4 | 27.3 | 26.8 | 34.3 | 33.3 | 32.4 | New 16 | 31.16 | 24.93 |
| DBR37 | Depo Haul Fryn, Rhuthun | RHBC/040 | A | Na | SJ 128 582 | 17 | 33 | 37 | 43 | 36.2 | 37.4 | 33.2 | 30.2 | 35.1 | 36.1 | 38 | 57.7 | 24.5 | New 17 | 36.78 | 29.43 |
| DBR38 | Cyferbyn â 62 Stryd Rhos, Rhuthun | RHBC/041 | A | Na | SJ 129 583 | 18 | 30 | 30 | 27 | 25.5 | 20.7 | 19.1 | 21.1 | 23.4 | 21.9 | 25.6 | 31.6 | 22.4 | New 18 | 24.86 | 19.89 |
| DBR39 | Banc y Natwest, Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun | RHBC/042 | A | Na | SJ 124 582 | 19 | 34 | 34 | * | * | * | * | * | * | * | * | * | * | 19 | 34.00 | 27.20 |
| DBR52 | Ger  Swayne Johnston Cyfreithwyr, Stryd y Dyffryn, Di | RHBC/055 | A | Na | SJ 053 661 | New 19 | | | 46 | 41.2 | | 34.5 | 31.5 | 34 | 33.1 | 40.9 | 44.2 | 37.5 | New 19 | 38.10 | 30.48 |
| DBR40 | Milk Bar, Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun | RHBC/043 | A | Na | SJ 124 583 | 20 | 27 | 23 | * | * | * | * | * | * | * | * | * | * | 20 | 25.00 | 20.00 |
| DBR53 | 7 Stryd y Dyffryn, Dinbych | RHBC/056 | A | Na | SJ 053 661 | New 20 | | | 41 | 33.6 | 37.6 | 33.6 | 33.8 | 37.3 | 42.2 | 42.3 | 59.8 | 35.6 | New 20 | 39.68 | 31.74 |
| DBR31 | 2 Ffordd y Rhyl, Dinbych | RHBC/034 | A | Na | SJ 058 665 | 21 | 30 | 26 | 34 | 27.1 | 17 | 20.8 | 20.3 | 18 | 18.2 | 26.4 | 31.9 | 23.9 | 21 | 24.47 | 19.57 |
| DBR32 | 47 Stryd Fawr, Dinbych | RHBC/035 | A | Na | SJ 052 661 | 22 | 29 | 32 | 31 | | 23.9 | 22.5 | 21 | 22.9 | 23.3 | 25.2 | 35.9 | 20.2 | 22 | 26.08 | 20.87 |
| DBR33 | Cyferbyn â'r Co-op, Stryd Fawr, Dinbych | RHBC/036 | A | Na | SJ 053 661 | 23 | 46 | | 43 | 17.6 | 28 | 29.3 | 29.5 | 30.7 | 25.4 | 28.8 | 37.9 | 37.6 | 23 | 32.16 | 25.73 |
| DBR34 | Cyferbyn â Fairyburn, Ffordd y Rhyl, Dinbych | RHBC/037 | A | Na | SJ 059 667 | 24 | 23 | 19 | 29 | 22.5 | 13.9 | 17.8 | 16.2 | 14.5 | 16.7 | 21.1 | 23.1 | 20.1 | 24 | 19.74 | 15.79 |
| DBR49 | 79 Stryd Fawr, Prestatyn | RHBC/052 | A | Na | SJ 066 829 | 25 | 32 | 31 | | 24.7 | 18.9 | 21.9 | | 17.9 | 21.3 | 21.6 | 28.9 | 16.3 | New 25 | 23.45 | 18.76 |
| DBR50 | Ger Sarone Court, Stryd Fawr, Prestatyn | RHBC/053 | A | Na | SJ 068 826 | 26 | 32 | 28 | 27 | 24.1 | 20 | 20.8 | 22.5 | 19.7 | 22.9 | 19.1 | 26.9 | 13.9 | New 26 | 23.08 | 18.46 |

A) Cleient heb ddychwelyd y tiwb sampl
B) Tiwb sampl wedi'i ddifrodi, methu dadansoddi
C) Tiwb sampl wedi'i lygru, methu dadansoddi
D) Sampl wedi mynd ar goll tra'n dadansoddi
F) Canlyniad yn wahanol iawn felly anwybyddwyd